

STRATEGAETH BUDDSODDI ADDYSG CAERDYDD 2024 - 2033

DOGFEN HAWDD EI DARLLEN

Cynigion i sefydlu mwy o Lefydd Ysgol Arbennig i Ddysgwyr
ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

9 CHWEFROR 2026 – 26 MAWRTH 2026



Beth yw'r newidiadau arfaethedig?

Mae Cyngor Caerdydd eisiau cynyddu nifer y lleoedd arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 4 a 19 oed sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol (ILIE).

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol broblemau o ran meddwl, teimlo ac ymddwyn. Mae hyn yn cael effaith ar reoli sut mae bywyd yn effeithio arnynt, sut maent yn ymdopi, sut maent yn ymgysylltu ag eraill a'r dewisiadau a wnânt. Weithiau mae hyn o ganlyniad i drawma. Gall plant a phobl ifanc arddangos gorbryder, hunan-barch isel, ffobia ysgol, neu anawsterau ymddygiadol.

www.caerdydd.gov.uk



STRONGER
FAIRER
GREENER



Beth mae'r Cyngor eisiau ei wneud?

Nod y Cyngor yw:

Ehangu / Sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol Newydd (CAAau) yn:

- **Ysgol Gynradd Baden Powell** - cynyddu nifer y lleoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol o 8 i 16 o fis Ionawr 2027.
- **Ysgol Gynradd y Tyllgoed** - cynyddu nifer y lleoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o 8 i 16 o fis Ionawr 2027.
- **Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof** - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol newydd ag 8 lle o fis Ionawr 2027.

Cynyddu nifer y lleoedd mewn Ysgolion Arbennig

- **Ysgol Arbennig Greenhill** - cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o 64 i 128 o fis Ionawr 2027. Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan ddefnyddio adeilad dros dro ar safle gwag Ysgol The Court yn Llanisien.

Gallwch ddod o hyd i fanylion am y cynigion hyn yn y ddogfen ymgynghori yn [Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\)](#)

Pam mae angen y newidiadau hyn?

- Mae nifer y plant ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yng Nghaerdydd wedi tyfu
- Nid oes digon o leoedd arbenigol yn ysgolion Caerdydd.
- Mae'n rhaid i rai plant fynd i ysgolion y tu allan i Gaerdydd, sy'n gallu golygu teithiau hirach ac sy'n costio llawer o arian i'r Cyngor
- Bydd mwy o leoedd lleol yn helpu plant i aros yn nes i'w cartrefi a bod yn rhan o'u cymuned
- Mae Caerdydd eisiau sicrhau bod pob plentyn yn cael y gefnogaeth gywir, yn yr ysgol iawn, ar yr adeg iawn

Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol?

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn:

- Ddosbarth arbenigol bach mewn ysgol brif ffrwd
- Dan arweiniad athrawon a staff hyfforddedig
- Lle lle gall dysgwyr gael help ychwanegol, tra'n dal i fod yn rhan o gymuned ysgol brif ffrwd
- Gofod diogel, cefnogol gyda grwpiau bach, lefelau staffio uwch, a mynediad at therapïau

Beth yw Ysgol Arbennig?

Ysgolion arbennig:

- Yn cefnogi plant sydd â'r lefelau angen uchaf
- Dosbarthiadau bach a staff arbenigol
- Darparu therapïau, ystafelloedd synhwyraidd, offer wedi'u haddasu a dysgu wedi'i bersonoli
- Helpu disgyblion i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau bywyd pwysig

Manteision y cynigion

- Bydd mwy o blant yn cael y cymorth arbenigol sydd ei hangen arnynt yng Nghaerdydd
- Bydd llai o blant yn gorfod teithio pellteroedd hirach
- Gall y Cyngor wario llai ar leoliadau annibynnol drud
- Mae'n defnyddio gofod sbâr mewn adeiladau ysgol
- Gall teuluoedd deimlo'n fwy hyderus bod eu plant yn dysgu yn y lle gorau iddyn nhw

Anfanteision posibl

- Efallai y bydd mwy o draffig y tu allan i'r ysgol ar yr adegau gollwng a chasglu
- Gall symud i adeilad ysgol newydd deimlo'n bryderus i rai disgyblion
- Efallai y bydd gwaith adeiladu yn achosi rhywfaint o darfu, ond bydd y Cyngor yn gweithio i gadw hyn i'r lleiafswm

Cefnogaeth i blant

Mae gan bob dysgwr mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Bydd ysgolion yn parhau i gefnogi pob dysgwr gydag:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Rhai sydd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim
- Cefndiroedd Ethnig Leiafrifol

Does dim tystiolaeth y bydd y cynigion yn effeithio'n negyddol ar y dysgwyr hyn.

Teithio i'r ysgol

- Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr sy'n gymwys
- Gallai mwy o leoedd lleol olygu teithiau byrrach i rai plant
- Bydd gan bob ysgol ardaloedd gollwng a chasglu diogel

Staff Ysgol

- Byddai gan ysgolion prif ffrwd lai o ddisgyblion ac angen llai o staff
- Bydd swyddi yn cael eu creu yn y ddarpariaeth arbenigol newydd.
- Bydd cyfleoedd i staff presennol ymgymryd â rolau newydd

Sut i ddweud eich dweud

Mae'r Cyngor am wybod eich barn chi.

Gallwch roi eich barn drwy:

- Ymuno â sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb. Nid oes angen i chi archebu ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn. Dim ond mynd i'r lleoliad ar y dyddiad a'r amser a bennir
- Ymuno â sesiwn galw heibio ar-lein. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk i gadarnhau pa sesiwn yr hoffech chi fynd iddi a byddwn yn anfon dolen atoch ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r cyfarfod hwn. Drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Mynychu'r cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk a byddwn yn ymateb i gadarnhau'r trefniadau. Drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Llenwi'r ffurflen ar-lein (dolen yn y ddogfen lawn).
- E-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennu at: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW

Mae dyddiadau'r sesiynau galw heibio a'r cyfarfod cyhoeddus wedi eu nodi isod:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn galw heibio	Dydd Iau 19 Chwefror 2026 9:30am - 11:30am	Hyb Llanisien
Sesiwn galw heibio	Dydd Gwener 27 Chwefror 2026 10:30am - 12:30pm	Hyb Trelái a Chaerau
Sesiwn galw heibio	Dydd Gwener 6 Mawrth 2026 11:30am - 1:30pm	Hyb STAR
Sesiwn galw heibio	Dydd Llun 9 Mawrth 2026 12 noon - 2pm	Canolfan Ddiwylliant a'r Cyfryngau Loudon
Sesiwn galw heibio	Dydd Mercher 18 Mawrth 2026 11am - 1pm	Hyb Llaneirwg
Sesiwn galw heibio ar-lein	Dydd Mercher 18 Chwefror 2026 12 noon - 1pm	Teams
Sesiwn galw heibio ar-lein	Dydd Llun 23 Chwefror 2026 1pm - 2pm	Teams
Sesiwn galw heibio ar-lein	Dydd Mawrth 24 Chwefror 2026 2pm - 3pm	Teams
Sesiwn galw heibio ar-lein	Dydd Llun 2 Mawrth 2026 5pm - 6pm	Teams
Sesiwn galw heibio ar-lein	Dydd Gwener 13 Mawrth 2026 12:30pm - 1:30pm	Teams
Cyfarfod cyhoeddus (wyneb yn wyneb)	Dydd Iau 19 Mawrth 2026 5:30pm - 6:30pm	Y Llyfrgell Ganolog

Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng 9 Chwefror a 26 Mawrth 2026

Ni ellir ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Beth fydd yn digwydd nesaf

- Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd adroddiad yn mynd i Gabinet y Cyngor.
- Os cytunir arno, bydd Hysbysiadau Statudol yn cael eu cyhoeddi fel y gall pobl wneud gwrthwynebiadau ffurfiol.
- Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ym mis Medi 2026.